**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**CYHOEDDIAD O FWRIAD I BEIDIO Â LLUNIO DATGANIAD AMGYLCHEDDOL RHEOLIAD 5 RHEOLIADAU ASESU EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL (GWAITH GWELLA DRAENIO TIR) 1999**

**GWAITH GWELLA MEWN PERTHYNAS Â CHYNLLUN LLINIARU LLIFOGYDD MAESYFFYNNON**

**Dyma hysbysiad gan GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** ("Y Cyngor") yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999:

1. Mae'r Cyngor yn cynnig cynnal gwaith i wella system draenio'r tir trwy adeiladu pwll gwanhau o fewn ffin y llinell goch, sydd i'w gweld yn y cynlluniau sydd ynghlwm, yn Lôn Maesyffynnon, Aberaman. Bydd y cynllun yn cynnwys gwaith ategol i ddargyfeirio dau gwrs dŵr cyffredin dienw i'r pwll gwanhau. Bwriad y gwaith yma yw lleihau'r llifoedd brig sy'n mynd i lawr yr afon tuag at y rhwydwaith cwlferi. Bydd hyn yn rheoli'r perygl o lifogydd dŵr wyneb a chyrsiau dŵr cyffredin i eiddo sydd mewn perygl i lawr yr afon.

2. Dyw'r Cyngor ddim yn bwriadu llunio datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r gwaith gwella arfaethedig. Gan gyfeirio at Atodlen 2 o Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Gwaith Gwella Draenio Tir) 1999, ni fwriedir llunio datganiad amgylcheddol oherwydd, o ystyried nodweddion y gwaith gwella, sensitifrwydd amgylcheddol yr ardaloedd daearyddol sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y gwaith gwella a math a nodweddion effaith bosibl y gwaith gwella ar yr amgylchedd, ni ystyrir y bydd y gwaith arfaethedig yn cael effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd.

3. Bydd y mesurau lliniaru ac ataliol canlynol yn cael eu rhoi ar waith i atal yr hyn a allai fel arall fod wedi bod yn effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd:

   - Rheoli adeiladu i liniaru effeithiau sŵn, dirgryniad a llwch;
   - Rheoli adeiladu i liniaru'r amser y mae gwaith yn gweithredu o fewn Cwrs Dŵr Cyffredin;
   - Rheoli Adeiladu i liniaru'r potensial bod llygredd yn effeithio ar y rhwydweithiau cwrs dŵr arferol;
   - Cydymffurfio â gofynion statudol ychwanegol sy'n ymwneud â Chaniatâd Cwrs Dŵr Cyffredin (Adran 23 o'r Ddeddf Draenio Tir 1991).

4. Mae disgrifiad o leoliad, natur a maint y gwaith gwella yn Rhan I o'r Atodlen i'r Hysbysiad yma.

5. Os yw rhywun yn dymuno gwneud sylwadau ysgrifenedig am effeithiau amgylcheddol tebygol y gwaith gwella arfaethedig, mae modd iddo wneud hynny drwy eu hanfon at Gyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH neu drwy anfon e-bost i RheoliPeryglLlifogydd@rctcbc.gov.uk o fewn 30 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r Hysbysiad yma.

6. Mae modd ceisio caniatâd i weld yr wybodaeth ychwanegol am y gwaith gwella yma, fel sydd wedi'i nodi yn Rhan II o'r Atodlen i'r Hysbysiad yma, gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf, Pontypridd, CF37 4TH neu drwy anfon e-bost i RheoliPeryglLlifogydd@rctcbc.gov.uk.

ATODLEN

Rhan I – manylion y gwaith gwella

Lleoliad y gwaith gwella: Lôn Maesyffynnon (OSGR: 300582, 202077), Heol Caerdydd (OSGR: 300763, 202036).


Natur a maint y gwaith gwella: Yr holl waith parhaol a'r gwaith dros dro sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

i. Gwaith i leihau llif y cyrsiau dŵr cyffredin, a thrwy hynny leihau llifoedd brig sy'n llifo i'r cwlferi presennol i lawr yr afon;
ii. Gwaith i ailgyfeirio dau gwrs dŵr cyffredin
iii. Adfer pob ardal y mae'r gwaith uchod yn effeithio arno.

Rhan II – Gwybodaeth ychwanegol

Mae lleoliadau'r gwaith arfaethedig i'w gweld yn y darlun sydd ynghlwm wrth yr hysbysiad yma.

Dyddiad *17/03/2026*



Andrew Wilkins
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol